



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Memorandwm Esboniadol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

DYDDIAD CYHOEDDI:
04 GORFFENNAF 2022



“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

Memorandwm Esboniadol i Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa Cwnsler Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a Cadw ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei lunio a'i osod yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 26C.9, a chaiff Memorandwm diwygiedig ei osod yn awr yn unol â Rheol Sefydlog 26C.38.

Cynnwys

Datganiadau'r Aelod wrth i'r Bil gael ei gyflwyno	- 5 -
Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26C.10	- 7 -
Rhan 1 – Cefndir y Bil	- 9 -
Disgrifiad	- 9 -
Yr amgylchedd hanesyddol – adnodd gwerthfawr a bregus	- 9 -
Y Rhesymau dros gyflwyno'r Bil.....	- 11 -
Cymhwysedd deddfwriaethol	- 17 -
Rhan 2 – Gwariant ychwanegol	- 18 -
Dadansoddiad o wariant ychwanegol	- 19 -
Crynodeb	- 23 -
Rhan 3 – Aseiad effaith integredig	- 25 -
Yr effaith ar y Gymraeg.....	- 25 -
Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb.....	- 25 -
Hawliau'r plentyn.....	- 26 -
Aseiad o'r effaith ar gyfiawnder	- 26 -

Atodiadau

Atodiad A – Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Atodiadau B1 a B2 – Tablau tarddiad a trawsleoli darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Atodiad C – Esboniad o'r newidiadau a wnaed i'r darpariaethau presennol ym Mil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Atodiad D – Gohebiaeth oddi wrth Gomisiwn y Gyfraith

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Datganiadau'r Aelod wrth i'r Bil gael ei gyflwyno

Datganiad sy'n ofynnol o dan 26C.9(i)

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 4 Gorffennaf 2022, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Datganiad sy'n ofynnol o dan 26C.9(iii)

Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil Cydgrynhai hwn ac eithrio'r rheini a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2.

Datganiad sy'n ofynnol o dan 26C.11

Rwy'n cadarnhau cywirdeb y Memorandwm Esboniadol hwn ac, ar ôl cymryd cyngor Comisiwn y Gyfraith pan fo'n berthnasol, ardystiaf fod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), yn fy marn i, yn Fil Cydgrynhai o fewn ystyr Rheolau Sefydlog 26C.1 a 26C.2.

Mick Antoniw AS

Cwmsler Cyffredinol Cymru
Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

21 Mawrth 2023

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26C.10

Gofynion Rheol Sefydlog 26C.9		Lleoliad yn y Memorandwm Esboniadol
26C.9 (i)	Datganiad yr aelod am gymhwysedd deddfwriaethol	Datganiadau'r Aelod Tudalen 5
26C.9 (ii)	Y rhesymau dros gyflwyno'r Bil	Rhan 1, paragraffau 10 i 31
26C.9 (iii)	Datganiad yr Aelod ar ddarpariaethau'r Bil	Datganiadau'r Aelod Tudalen 5
26C.9 (iv)	Tablau tarddiadau a thrawsleoliadau	Atodiadau B1 a B2
26C.9 (v)	Esboniad o'r newidiadau a wnaed	Atodiad C
26C.9 (vi)	Crynodeb o fwriad pob un o'r darpariaethau	Atodiad A – Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
26C.9 (vii)	Cadarnhad nad oes unrhyw wariant sylweddol ychwanegol ac amcangyfrifon gorau o'r gwariant ychwanegol	Rhan 2, paragraff 34 a pharagraffau 38 i 57
26C.9 (viii)	Yr effaith bosibl ar y system gyfiawnder	Rhan 3, paragraff 65
26C.9 (ix)	Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddarpariaethau sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru	Ddim yn berthnasol (a gweler paragraff 35)
Gofynion Rheol Sefydlog 26C.11		Lleoliad yn y Memorandwm Esboniadol
26C.11	Datganiad yr Aelod am gywirdeb y Memorandwm Esboniadol, ac ardystiad mai Bil Cydgrynhoi yw'r Bil	Datganiadau'r Aelod Page 5

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Rhan 1 – Cefndir y Bil

Disgrifiad

1. Diben Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ('y Bil') yw cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.
2. Yr hyn a olygir wrth gydgrynhoi yw dwyn ynghyd y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth (sylfaenol, gan amlaf) ar bwnc penodol fel ei bod yn hawdd dod o hyd iddi, a'i gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso drwy foderneiddio ffurf y gyfraith a'r modd y caiff ei drafftio. Yn aml, wrth gydgrynhoi deddfwriaeth, mae nifer o Ddeddfau sy'n bodoli eisoes ar bwnc yn cael eu dwyn ynghyd, gan ddiweddarau a chysoni'r darpariaethau, er mwyn creu Un Ddeddf newydd yn y pen draw.

Yr amgylchedd hanesyddol – adnodd gwerthfawr a bregus

3. Mae pobl Cymru wedi etifeddu amgylchedd hanesyddol unigryw. Fe'i saerniwyd gan genedlaethau'r gorffennol dros ganrifoedd lawer, ac mae'n parhau i wella ansawdd ein bywydau a'n lles heddiw. Mae'r lleoedd hanesyddol (neu'r asedau hanesyddol, fel y cyfeirir atynt yn aml) sydd o'n cwmpas yn rhoi ymdeimlad o le inni ac yn helpu i'n diffinio fel cenedl. Mae llawer o asedau hanesyddol yn ein hamgylchedd hanesyddol, gan gynnwys adeiladau a henebion hanesyddol unigol, safleoedd archaeolegol, parciau a gerddi hanesyddol, ardaloedd cadwraeth, trefweddau a thirweddau hanesyddol. Yn ogystal â'r manteision diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae'r amgylchedd hwn yn eu rhoi i bobl Cymru yn eu cael o'r amgylchedd hanesyddol hwn, mae hefyd yn gwneud cyfraniad mawr i economi'r genedl, drwy dwristiaeth er enghraifft. Gall yr amgylchedd hanesyddol hefyd fod yn sbardun pwerus i adfywio ardaloedd trefol a gwledig, gan chwarae rhan bwysig wrth gryfhau hyder y gymuned ac wrth ddenu mewnfuddsoddiad i ysgogi datblygiad a thwf economaidd.
4. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd gwerthfawr, mae hefyd yn un bregus. Rhaid ei warchod fel y bo cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru a phobl sy'n ymweld â'n gwlad yn parhau i gael eu hysbrydoli ganddo, i ddysgu oddi wrtho ac i fwynhau'r holl fanteision y mae'n eu cynnig. Ond wedi dweud hynny, ni ellir ei rewi yn ei unfan. Mae newid yn anochel, oherwydd y bydd treigl y blynyddoedd yn dweud ar hyd yn oed yr henebion neu'r adeiladau mwyaf cadarn, ac weithiau mae angen newid hefyd fel y bo modd cadw a rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd ofalus a chynaliadwy. Cyhoeddodd Cadw Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli

amgylchedd hanesyddol Cymru (2011) ar ran Gweinidogion Cymru. Nodir yn yr egwyddorion hynny mai hanfod cadwraeth yw rheoli newid yn ofalus er mwyn gwarchod a chadw'r hyn sy'n arwyddocaol ac yn arbennig am ein hasedau hanesyddol.

5. Mae'r egwyddorion hynny ar gyfer gwarchod a chadw'n hasedau yn cael eu hategu gan y ddeddfwriaeth a geir yn y Bil hwn. Yr hyn sy'n ganolog i'r ddeddfwriaeth honno yw'r angen i ddefnyddio proses dewis a dethol i adnabod a dynodi'r asedau hanesyddol hynny (boed yn adeiladau, yn henebion neu'n ardaloedd hanesyddol) sydd o ddiddordeb arbennig ar lefel genedlaethol. Mae'r ddeddfwriaeth wedyn yn darparu cyfres o fesurau sy'n helpu i warchod a diogelu'r cymeriad arbennig sy'n golygu bod yr asedau hanesyddol dynodedig hynny o bwysigrwydd cenedlaethol ac, yn benodol, mae'n darparu mesurau er mwyn rheoli gwaith sy'n effeithio ar yr asedau hynny.
6. I gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth, mae cyfres o ddogfennau cyngor a chanllawiau cynllunio sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol, yn enwedig *Nodyn Cyngor Technegol 24: yr Amgylchedd Hanesyddol* (2017). Hyd yma, mae 15 o ddogfennau canllaw arferion gorau wedi'u cyhoeddi. Mae rhai ohonynt wedi'u hanelu'n bennaf at berchenogion asedau hanesyddol, tra bo eraill yn cael eu darparu ar gyfer yr awdurdodau cynllunio, ond mae pob un ohonynt ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Cadw. Gyda'i gilydd, mae'r ddeddfwriaeth, y dogfennau cyngor a'r canllawiau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol, ac ar gyfer rheoli newid sy'n effeithio ar leoedd hanesyddol yng Nghymru.
7. Nid yw rheoleiddio'r amgylchedd hanesyddol yn golygu nad oes modd newid ffurf, adeiladwaith neu swyddogaeth adeilad neu heneb. Gallai gwaith na fydd yn achosi niwed, neu y gellir ei gyfiawnhau fel arall, neu a fydd hyd yn oed yn gwella'r adeilad, olygu y gellir parhau i ddefnyddio adeilad hanesyddol, neu gallai gwaith o'r fath atal rhagor o ddifrod i heneb nei ei atal rhag dadfeilio mwy. Yn hytrach, nod y system yw cadw cymeriad adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig neu gadw cymeriad heneb sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig, drwy reoli newid yn ofalus. Er enghraifft, efallai y bydd angen awdurdodi gwaith helaeth ar gapel rhestredig nad yw'n cael ei ddefnyddio bellach at ddibenion crefyddol os yw i barhau i gael ei aildefnyddio mewn ffordd newydd. Er hynny, mae angen asesu effaith y gwaith hwnnw'n ofalus drwy'r broses gydsynio er mwyn diogelu cymeriad arbennig yr adeilad.
8. Mae hanes hir i'r fframwaith hwn ar gyfer gwarchod o chadw asedau hanesyddol. Sefydlwyd y gofrestr gyntaf un o henebion y DU o dan Ddeddf Diogelu Henebion 1882 ac roedd y gofrestr honno'n cynnwys tair heneb gynhanesyddol yng Nghymru. Ym 1947, ymunodd "rhestr" o adeiladau o

ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig â'r "gofrestr" o henebion ac erbyn hyn, mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a mwy na 4,000 o henebion cofrestredig yng Nghymru. Cafodd y gofrestr a'r rhestr eu hategu wedyn gan ardaloedd cadwraeth ym 1967 ac yn fwyaf diweddar, yn sgil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"), gan gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol a rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol.

9. Fodd bynnag, mae'r hanes hir iawn hwnnw, a'r angen i fynd ati'n aml i ddiweddarau ac i gryfhau'r ddeddfwriaeth, yn golygu bod y gyfraith sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol yn arbennig o gymhleth. Mae diwygiadau a wnaed i ddarpariaethau penodol gan wledydd gwahanol y Deyrnas Unedig wedi ychwanegu at y cymhlethdod hwnnw.

Y Rhesymau dros gyflwyno'r Bil

10. Mae pryderon wedi'u codi ers blynnyddoedd lawer am gymhlethdod y gyfraith yn y Deyrnas Unedig ac am gyflwr anhrefnus ein llyfr statud, sy'n enfawr ac yn wasgaredig. Mae'r broblem hon yn un a achoswyd nid yn unig gan yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd a'r holl led-ddeddfwriaeth, ond hefyd gan yr anghysondeb wrth fynd ati i ddiwygio, ailddiwygio ac ailwneud y ddeddfwriaeth honno dros amser. Mae'r arfer hwn yn creu haenau o ddeddfwriaeth a all fod yn perthyn i'w gilydd neu a all fod yn gysylltiedig â'i gilydd mewn sawl ffordd wahanol, gan olygu bod y sefyllfa o ran deddfwriaeth yn un anodd i ddefnyddwyr. Hefyd, mae'n gyffredin bellach i'r gyfraith fod yn wahanol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw deddfwriaeth sy'n ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol yn eithriad yn hynny o beth.
11. Mae'r Bil hwn yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth sydd i'w gweld mewn nifer o Ddeddfau ar hyn o bryd, yn bennaf:
 - Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953
 - Rhannau 1 a 3 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ("Deddf 1979")
 - Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf Adeiladau Rhestredig 1990")
 - Rhan 4 o Ddeddf 2016.
12. Mae'r Bil hefyd yn ailddatgan y ddeddfwriaeth isod sy'n ymdrin â chynllunio:
 - darpariaethau yn Rhannau 14 a 15 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf Cynllunio 1990") a gymhwysir i Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 gan adrannau 89(1) a 91(2) o'r Ddeddf honno

- Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("Deddf 2004"), i'r graddau y mae'n gymwys i benderfyniadau o dan Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990.

13. Ymarferion cydgrynhoi oedd Deddf 1979 a Deddf Adeiladau Rhestredig 1990:

- a. Deddfau blaenorol Senedd y DU ar warchod henebion oedd Deddf Gwarchod Henebion 1882; Deddf Cydgrynhoi a Diwygio Henebion 1913; Deddf Henebion 1931; a Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953.
- b. Yr hyn a wnaeth Deddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn bennaf oedd ailddatgan y darpariaethau ar adeiladau hanesyddol ac adeiladau rhestredig yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 ("TCPA 1971"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau diweddarach¹. Roedd TCPA 1971 wedi cydgrynhoi Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962 ("TCPA 1962") a Deddfau diweddarach. Roedd TCPA 1962 yn ei thro wedi cydgrynhoi Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 a Deddfau eraill.

Mae Rhan 1 o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 yn cynnwys darpariaethau a basiwyd gyntaf ar wahanol adegau o 1947 ymlaen. Er enghraifft, cafodd y gofyniad i greu rhestr o adeiladau ei ddeddfu gyntaf yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947. O Ddeddf Amwynderau Sifil 1967 y tarddodd y drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 gyflwynodd y gofyniad i gael cydsyniad adeilad rhestredig a'r pŵer i gyhoeddi hysbysiadau gorfodi.

Diwygiwyd Rhan 1 gan nifer o Ddeddfau diweddarach. Cafodd y prif ddiwygiadau sy'n gymwys i Gymru eu gwneud gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Deddf 2004 a Deddf 2016. Gwnaed diwygiadau hefyd sy'n gymwys i Loegr yn unig, yn benodol gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

14. Mae'r hanes hwn yn golygu bod gwahaniaethau ac anghysondebau wedi datblygu rhwng darpariaethau dros amser. Pan oedd Deddfau cydgrynhoi blaenorol yn ailddatgan darpariaethau a oedd i'w gweld mewn Deddfau cynharach, roeddent yn gwneud hynny heb newid fawr ddim ar yr iaith gan amlaf, felly, yn aml, roedd y gwahaniaethau hynny'n cael eu cadw. Wrth ddrafftio'r Bil hwn, ymdrechwyd i nodi ac i ddileu cynifer o anghysondebau ag y bo modd, oni bai bod rhesymau dros eu cadw.

¹ Cafodd gweddill Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1972 ei gydgrynhoi yn y Ddeddf Cynllunio ac yn Neddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

15. O ystyried oedran nifer o'r Deddfau hyn, nid ydynt mor glir a hawdd eu deall ag y gallent fod. Mae rhai o'r darpariaethau'n amwys neu wedi achosi problemau wrth iddynt gael eu harfer. Gellid dadlau hefyd nad oes angen rhai ohonynt erbyn hyn, ac mae rhai ohonynt wedi dyddio. Byddent felly yn elwa ar gael eu moderneiddio. Er enghraifft, mae'r Bil wedi symleiddio'r darpariaethau ar gyhoeddi'r rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod gwasanaethau digidol ar gael.
16. Mae'r rhan fwyaf o'r Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi yn rhagflaenu'r setliad datganoli i Gymru. Mae hynny'n golygu nad yw rhai o'r rheolau, y gofynion a'r diffiniadau a ddefnyddir yn berthnasol i gyfraith sy'n gymwys i Gymru yn unig. Er enghraifft, mae rhai darpariaethau yn Neddf 1979 sy'n gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban, rhai sy'n gymwys i Gymru yn unig, a rhai sy'n gymwys i Loegr yn unig ac i'r Alban yn unig. Hefyd, nid yw rhai o'r cyrff y cyfeirir atynt yn y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r trefniadau sefydliadol a chyfansoddiadol sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r Bil yn ailddatgan y darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig, ac yn diweddarau'r derminoleg a'r cyfeiriadau, gan ei gwneud yn haws o lawer i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth ddeall y gyfraith fel y mae'n gymwys iddyn nhw.
17. Mater arall sy'n destun pryder yw'r ffaith bod y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n weddill – ac eithrio Deddf 2016, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd) – i'w gweld mewn Deddfau gan Senedd y DU. O'r herwydd, fe'i deddfwyd yn Saesneg yn unig. Yn ogystal, yr hyn y mae'r rhan fwyaf o Ddeddf 2016 yn ei wneud yw diwygio deddfwriaeth gynharach, ac felly dim ond nifer cyfyngedig o'i darpariaethau gweithredol sydd ar gael yn ddwyieithog. At ei gilydd, prin yw'r ddeddfwriaeth ddwyieithog sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, sy'n golygu nad yw'r gyfraith mor hygyrch ag y dylai fod. Mae hynny hefyd yn rhwystr i'r rheini sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gyfraith.
18. Yn ogystal â dod ynghyd â darpariaethau perthnasol a geir yn yr holl amryfal Ddeddfau, mae'r Bil hefyd yn cynnwys rhai o'r darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau sy'n cael eu cydgrynhoi. Mae ynddo hefyd rywfaint o gyfraith achosion ac arferion cyfraith, sy'n bwysig o ran deall sut y mae'r Deddfau hynny'n gweithredu. Mae Atodiad C i'r Memorandwm hwn yn esbonio ym mha leoedd y cynhwyswyd deunydd o'r math hwnnw.
19. Mae'r Bil yn gweithredu nifer o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad terfynol ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru². Mae rhai o'r argymhellion yn ymwneud yn benodol â darpariaethau sy'n cael eu hailddatgan yn y Bil; mae eraill yn ymwneud â darpariaethau mewn deddfwriaeth gynllunio

² Comisiwn Cyfraith Cymru a Lloegr (2018) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (Law Com 383)

sy'n union yr un fath â'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi yn y Bil, neu sy'n debyg iawn iddynt.

20. Yn ogystal, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyflwyno rhagor o argymhellion i Weinidogion Cymru am faterion penodol y byddai'n briodol, yn ei farn ef, eu cynnwys yn y Bil Cydgrynhoi hwn – gweler Atodiad D.
21. Nid yw'r ffaith bod adroddiad Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell newid yn golygu o reidrwydd ein bod yn dibynnu ar baragraff (v) o Reol Sefydlog 26C.2, sy'n caniatáu i Fil cydgrynhoi wneud newidiadau sydd, yn ôl argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, yn briodol eu cynnwys mewn Bil cydgrynhoi. Yr unig bryd y ceisiwyd argymhelliad o dan baragraff (v) oedd pan oedd Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn debygol na ellid newid y Bil o dan unrhyw baragraff arall yn Rheol Sefydlog 26C.2 heb argymhelliad o'r fath. Mae'r nodiadau a ddarperir yn Atodiad C yn nodi'r newidiadau yn y Bil sy'n dibynnu ar argymhelliad o dan baragraff (v).
22. Amcan y Bil cydgrynhoi hwn yw ei gwneud yn haws deall a dod o hyd i ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol, drwy ddarparu un Ddeddf fodern, ddwyieithog i Gymru. Bydd hynny'n fodd i hyrwyddo cysondeb o ran iaith a ffurf y ddeddfwriaeth, gan helpu i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol. Bydd yn fodd hefyd i hyrwyddo cysondeb o ran sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu. Bydd hynny'n sicrhau y bydd yr amgylchedd hanesyddol yn gallu parhau i gyfrannu at les Cymru a'i phobl. Bydd y Ddeddf hon, ynghyd ag is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tani, yn ffurfio Cod cyfraith Cymru ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r statws hwnnw'n arwyddocaol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pob deddfiad sy'n rhan o'r Cod gyda'i gilydd. Yn ail, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhagweld y bydd, yn amodol ar gytundeb y Senedd, yn newid Rheolau Sefydlog y Senedd er mwyn ceisio sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol i gyfraith sy'n rhan o God yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu ddisodli'r deddfiadau yn hytrach na gwneud darpariaethau gwahanol, "annibynnol", a fyddai unwaith eto'n arwain at gymhlethdod wrth amlhau cyfreithiau.
23. O edrych ar y sefyllfa ehangach, y Bil cydgrynhoi hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o brosiectau arfaethedig i gydgrynhoi'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Mae'r prosiectau hyn yn ganolog i'r gwaith o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, ac maent yn rhan o raglen y Llywodraeth ar Dyfodol Cyfraith Cymru³. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru)⁴:

³ Ar gael yma: [Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

⁴ Gweler tabl 3 (tudalen 49) o'r *Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru)* fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2) sydd ar gael yma: [pri-ld11927-em-w.pdf \(senedd.cymru\)](#)

Trwy sicrhau hygyrchedd cyfraith Cymru yn y tymor hir byddai'r Bil yn dod â manteision sylweddol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru ac i ddinasyddion preifat trwy ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio'r gyfraith yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd yn hyrwyddo gwell hyder yn y gyfraith i fusnes, y Llywodraeth a dinasyddion, gan arwain at benderfyniadau mwy hyderus ac effeithlon ar draws pob rhan o gymdeithas ddinesig a'r sector preifat.

Disgwylir i'r manteision ehangach hyn gael ei gwireddu ar ôl i'r ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol gael ei chydgrynhoi.

24. Ceir crynodeb o strwythur a chynnwys y Bil ar ddechrau'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil (gweler Atodiad A). Mae'r fframwaith deddfwriaethol a ddarperir gan y ddeddfwriaeth bresennol, a bellach gan y Bil, yn cefnogi gwaith gweithredol Cadw, ac yn helpu'r awdurdodau cynllunio ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru mewn ffordd effeithiol.
25. Mae Cadw yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae, felly, yn gyfrifol am weithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth gyflawni ac arfer llawer o'r dyletswyddau a'r pwerau y mae'r Bil wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd i gadw a chyhoeddi rhestr o henebion a rhestr o adeiladau, ac i awdurdodi gwaith ar henebion cofrestredig drwy gydsyniad heneb gofrestrredig, yn arbennig o bwysig. Cadw hefyd sy'n gyfrifol am ystyried henebion o ddiddordeb arbennig y gallai Gweinidogion Cymru eu caffael neu ddod yn warcheidwaid arnynt. Ar hyn o bryd, mae 130 o henebion yng ngofal Cadw, ar ran Gweinidogion Cymru. Cadw sy'n gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru i gynnal a darparu mynediad cyhoeddus i'r henebion hyn.
26. Mae'r Bil hefyd yn rhoi'r pwerau angenrheidiol i'r awdurdodau cynllunio ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gyflawni'r cyfrifoldebau penodol sydd arnynt i reoli gwaith sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Yn benodol, mae'r awdurdodau cynllunio'n gyfrifol am awdurdodi gwaith sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o adeiladau rhestredig drwy roi cydsyniad adeilad rhestredig. Nhw hefyd sy'n gyfrifol am gymryd camau gorfodi pan fo angen os gwneir gwaith nad yw wedi'i awdurdodi a nhw hefyd sy'n gyfrifol am weithredu, os ystyrir bod angen, pan fydd adeiladau rhestredig yn mynd i gyflwr gwael.
27. Wrth gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bod, gwnaed pob ymdrech i fynegi cysyniadau cyfreithiol mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn hygyrch, ac sy'n adlewyrchu'r arferion cyfredol – o ran drafftio ac o ran gweithredu'r gyfraith. Mae'r dasg honno wedi bod yn gryn her ar adegau ac aed ati i ddisodli rhai termau a oedd wedi hen ennill eu plwyf. Er enghraifft, cyflwynwyd y term

'ancient monument' yn y darn cyntaf o ddeddfwriaeth y DU ar yr amgylchedd hanesyddol: Deddf Gwarchod Henebion 1882. Roedd y term hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddisgrifio detholiad bach o henebion cynhanesyddol a oedd yn cael eu gwarchod gan y Ddeddf honno, felly roedd yn un priodol i'w ddefnyddio bryd hynny. Ond mewn Deddfau dilynol, daeth i olygu henebion o unrhyw gyfnod, o'r cyfnod cynhanesyddol pell i gyfnod y Rhyfel Oer. O'r herwydd, nid yw'n gwbl gywir ac, mewn ambell achos, mae'n gamarweiniol; mae'r Bil, felly, yn disodli'r term hwnnw, gan ddefnyddio'r label fwy manwl ac eglurhaol 'heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig' yn ei le.

28. Wrth fynd ati i gydgrynhoi, cafodd darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol eu dileu neu eu hepgor os oeddent wedi darfod, wedi'u disbyddu neu os nad oes iddynt bellach unrhyw ddefnydd neu effaith ymarferol. Ar y cyfan, mân ddarpariaethau diangen yw'r rhain (mae rhagor o fanylion am y newidiadau hynny i'w gweld yn Atodiad C). Yn fwy arwyddocaol, dilëwyd dau faes oherwydd y bernir nad oes iddynt bellach unrhyw ddefnydd neu effaith ymarferol:

- Rhan II o Ddeddf 1979, sy'n darparu ar gyfer creu ardaloedd archaeolegol, ac
- adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2016, sy'n darparu ar gyfer sefydlu Panel Cyngori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

29. Nid yw Rhan II o Ddeddf 1979 wedi cael ei defnyddio yng Nghymru erioed ac nid yw'n debygol o gael ei defnyddio yn y dyfodol ychwaith oherwydd, yn ymarferol, fod polisiâu cynllunio yn rhoi mwy o warchodaeth i dreftadaeth archaeolegol. Yn rhannol oherwydd hynny, mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymhell y dylid diwygio Deddf 1979 i ddirymu Rhan II yng Nghymru⁵.

30. Nid yw darpariaethau Deddf 2016 mewn perthynas â'r Panel Cyngori wedi cael eu gweithredu erioed. Yn ystod y blynyddoedd ar ôl y Ddeddf honno, gwelwyd newidiadau o ran sut y mae Cadw'n cael ei lywodraethu a sefydlwyd Bwrdd Cadw, sy'n cynnwys aelodau allanol a gaiff eu recriwtio drwy broses sy'n cyfateb i'r broses penodiadau cyhoeddus. Os gofynnir i'r Bwrdd wneud hynny, caiff roi'r math o gyngor annibynnol y rhagwelwyd y byddai'r Panel Cyngori yn ei ddarparu i'r Gweinidogion. Mae Grŵp Amgylchedd Hanesyddol wedi'i sefydlu ers tro hefyd ac arno gynrychiolwyr ar ran ystod eang o randdeiliaid ym maes treftadaeth. Unwaith eto, mae'r Grŵp hwnnw, yn aml, yn fforwm ar gyfer rhoi

⁵ Comisiwn Cyfraith Cymru a Lloegr (2018) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* (Law Com 383). Argymhelliad 13-11: *Argymhellwn y dylid diwygio Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 fel na fydd Rhan 2 (ardaloedd o bwys archaeolegol) yn gymwys yng Nghymru.*

cyngor i Weinidogion. Gan fod y ddau gorff hyn yn bod, nid oes unrhyw ddisgwyliad realistig y bydd y Panel Cyngori yn cael ei sefydlu.

31. Nid yw cydgrynhai'r ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol yn y Bil hwn yn cynnwys y ddeddfwriaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol morol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y modd y mae'r ddeddfwriaeth sydd ohoni yn amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol morol.

Cymhwysedd deddfwriaethol

32. Mae gan y Senedd y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.
33. Mae'r Cwnsler Cyffredinol, sef yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hwn, wedi gwneud datganiad yn unol â Rheol Sefydlog 26C.9(i) – gweler tudalen 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Rhan 2 – Gwariant ychwanegol

34. Nid yw darpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ('y Bil') yn arwain at wariant sylweddol ychwanegol a fydd yn daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru.
35. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.
36. Mae rhai costau trosiannol bach yn gysylltiedig â gweithredu'r Bil, os caiff ei basio gan y Senedd a'i ddeddfu. Amcangyfrifwyd y costau hynny ar gyfer y cyfnod arfarnu rhwng 2023 a 2026 ac ni ragwelir y bydd unrhyw gostau parhaus ychwanegol ar ôl y cyfnod hwnnw.
37. Yn yr asesiad hwn, mae'r holl gostau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf.

Dadansoddiad o wariant ychwanegol

38. Mae'r Bil yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, ac yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 26C.2 y Senedd, nid yw'n diwygio polisi mewn unrhyw ffordd arwyddocaol⁶ O'r herwydd, ni fydd unrhyw gostau sylweddol ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac i eraill wrth i'r Bil gael ei weithredu.
39. Rhagwelir y bydd rhai costau trosiannol yn gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei chydgrynhoi. Bydd y costau hynny'n codi'n bennaf oherwydd yr angen i ddiweddarau canllawiau (megis y canllawiau arferion gorau y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 uchod), ffurflenni a gwefannau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd angen cynnal gweithdai ymglyfarwyddo hefyd (mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf ohonynt, os nad pob un, yn cael eu gwneud ar-lein yn hytrach na thrwy fod yn bresennol mewn lleoliad penodol).

Meysydd gwariant ychwanegol a nodwyd

Llywodraeth Cymru

40. Mae'n debygol y bydd angen i Lywodraeth Cymru ysgwyddo costau mewn pum maes gwariant:

⁶ Eir ati yn Atodiad C i'r Memorandwm Esboniadol hwn i esbonio'r newidiadau a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C ac y mae'n ofynnol eu hesbonio.

- a. Paratoi'r is-ddeddfwriaeth a fydd yn ofynnol er mwyn rhoi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith yn llawn. Bydd angen paratoi'r is-ddeddfwriaeth ac, mewn rhai achosion, bydd angen ymgynghori arni. Bydd y costau'n ymwneud yn bennaf ag amser staff, a byddant yn cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu (h.y. cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym).
 - b. Diweddarau dogfennau canllawiau, ffurflenni a llythyrau, datblygu testun craidd a gwybodaeth sector-benodol y bydd sefydliadau eraill yn gallu'i defnyddio i esbonio'r newidiadau, a chynnal gweithdai ymglyfarwyddo. Efallai y bydd angen datblygu taflenni ffeithiau neu wybodaeth arall y gellir ei dosbarthu mewn digwyddiadau, neu wrth gynnal ymweliadau safle etc. Bydd y costau hynny'n ymwneud yn bennaf ag amser staff, a byddant yn cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu
 - c. Diweddarau gwefan Cadw, Cof Cymru, gwefan Llywodraeth Cymru a Cyfraith Cymru/Law Wales i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Unwaith eto, bydd y costau'n ymwneud yn bennaf ag amser staff, a byddant yn cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.
 - d. Diweddarau'r Porth Cynllunio, sydd, yng nghyd-destun deddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol, yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno ceisiadau am gydsyniad i wneud gwaith ar adeiladau rhestredig. Costiodd rhyw £4,000 i newid y Porth Cynllunio yn sgil rheoliadau newydd a gyflwynwyd yn 2017. Mae'n debygol y bydd yn costio rhywbeth tebyg i wneud y newidiadau y bydd eu hangen ar ôl cydgrynhoi deddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol, a byddant yn cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.
 - e. Galluogi Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), sy'n cynnal nifer o adolygiadau ac apeliadau ac sy'n ymgymryd â gweithgarwch arall sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, i ddiweddarau nodiadau cyfarwyddyd, eu gwefan a'u ffurflenni. Bydd angen i staff gweinyddol ac arolygwyr PEDW ymglyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd hefyd.
41. Bydd yn rhaid wrth amser staff i ddiweddarau adnoddau ar-lein ac i adolygu a diweddarau'r gyfres o ganllawiau a dogfennau rheoli. Mae'r gweithdai ymglyfarwyddo yn debygol o gael eu cynnal ar-lein, gan alluogi mwy nag un awdurdod lleol neu awdurdod Parc Cenedlaethol i ddilyn pob sesiwn; mae'n debygol mai rhai o staff gradd uwch Cadw fydd yn cynnal y sesiynau hynny. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys PEDW, fydd £27,500, a bydd y gost honno'n cael ei hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.

Yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

42. Yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yw'r awdurdodau cydsynio ar gyfer ceisiadau am waith ar y rhan fwyaf o fathau o adeiladau rhestredig. Nhw hefyd sy'n ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio a allai effeithio ar asedau hanesyddol dynodedig, gan gynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a pharciau a gerddi hanesyddol. Bydd angen i staff ym mhob awdurdod ymgyswngi â'r ddeddfwriaeth newydd, a bydd angen iddynt ddiweddarau eu gwefannau, eu ffurflenni perthnasol a'u llythyrau safonol. Bydd yr awdurdodau lleol hefyd yn bwynt cyswllt ar gyfer perchenogion adeiladau rhestredig a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol ac, o'r herwydd, bydd angen iddynt sicrhau bod eu cyngor yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd.
43. Bydd angen i'r awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddarparu sesiynau ymgyswngi ar gyfer aelodau'r cyngor a swyddogion perthnasol eraill, ond Cadw fydd yn darparu'r deunyddiau craidd ar gyfer y sesiynau hynny.
44. Amcangyfrifir y bydd angen rhyw bedwar diwrnod o amser staff ar bob awdurdod, am gost o ryw £17,500, a fydd yn cael ei ysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.

Cyrff yn y trydydd sector / cymdeithasau amwynder

45. Mae cyrff yn y trydydd sector a chymdeithasau amwynder yn lledaenu gwybodaeth am sut y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei gweithredu, felly bydd angen iddynt ddiweddarau'r wybodaeth honno er mwyn adlewyrchu'r newidiadau. Fel y nodwyd uchod, bydd Cadw yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddarau i gyrff o'r fath ac rydym yn amcangyfrif, felly, mai bach iawn fydd y baich o ddiweddarau gwefannau unigol. Mae'n debyg mai amser rhyw un person am ddiwrnod y bydd ei angen.

Llysoedd Ynadon, Llys y Goron a Gwasanaeth Eryl y Goron

46. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effaith sylweddol ar y system farnwrol oherwydd nad yw'r Bil cydgrynhoi yn newid effaith y gyfraith bresennol (gweler hefyd baragraff 65 isod). Bydd angen i Wasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddiweddarau eu cofnodion i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Bydd hynny'n rhan o'u busnes arferol.

Awdurdodau'r heddluoedd

47. Bydd Cadw yn cysylltu â'r swyddogion hynny yn heddluoedd Cymru sy'n ymdrin yn benodol â throseddau treftadaeth er mwyn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth iddynt a darparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth newydd. Bydd hynny'n ategu'r trefniadau sydd gan yr heddluoedd hynny ar hyn o bryd ar gyfer nodi a gweithredu deddfwriaeth newydd.
48. Amcangyfrifir y bydd angen i bedwar swyddog sy'n ymdrin â throseddau treftadaeth dreulio rhyw hanner diwrnod yr un o'u hamser yn cwblhau gweithdy ymgyfarwyddo. Bydd y gost yn gyfanswm o rhyw £1,400, a bydd yn cael ei hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.

Cwmnïau cyfraith preifat a sefydliadau cynghori

49. Ni wyddys faint o gwmnïau cyfraith preifat neu sefydliadau cynghori fel Cyngor ar Bopeth sy'n ymhel â deddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol, ond nid ydynt yn debygol o orfod ysgwyddo unrhyw gostau uniongyrchol. Byddant, serch hynny, yn cael eu hannog i fod yn ymwybodol o'r newidiadau a'r ddeddfwriaeth newydd. Cadw fydd yn darparu'r wybodaeth graidd sydd ei hangen ac, ar sail yr amcangyfrif o'r gost sy'n gysylltiedig â gwneud hynny ar gyfer sefydliadau eraill, credir y gallai gymryd dwy awr i unigolion ddarllen y deunydd perthnasol a fydd ar gael ar wefan Cadw. Bydd pobl hefyd yn cael eu cyfeirio at yr wybodaeth drwy Gymdeithas y Cyfreithwyr, Newyddion Cymru'r Gyfraith, a sefydliadau a chyhoeddiadau cynrychioliadol eraill.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

50. Mae pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru sy'n cefnogi'r cofnod amgylchedd hanesyddol craidd, Archwilio. Bydd angen diweddarau eu gwefannau nhw ac amcangyfrifir y bydd angen dau ddiwrnod ar bob Ymddiriedolaeth i wneud hynny. Bydd Cadw yn rhoi cymorth iddynt ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd ac amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua hanner diwrnod i bob Ymddiriedolaeth wneud hynny.
51. Amcangyfrifir y bydd hynny'n costio cyfanswm o ryw £2,400; bydd y costau hynny'n cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

52. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cyflawni sawl swyddogaeth ar ran Cadw, a bydd angen iddo ddiweddarau nifer o adnoddau sy'n cefnogi cofnod yr amgylchedd hanesyddol. Yn eu plith y mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol. Bydd angen cymorth Cadw arnyn nhw hefyd i ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd.

53. Amcangyfrifir y bydd angen rhyw bum diwrnod arnynt i wneud hynny ac y bydd yn costio tua £900; bydd y costau hynny'n cael eu hysgwyddo yn ystod y cyfnod gweithredu.

Y Gofrestrfa Tir

54. O ganlyniad i Ddeddf Seilwaith 2015, cafodd y cyfrifoldeb dros gadw cofrestr o bridannau tir lleol ei drosglwyddo'n raddol oddi wrth yr awdurdodau lleol i Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi. Yr awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod tarddiadol" a fydd yn cymhwyso, yn amrywio ac yn canslo taliadau ar y gofrestr.
55. Pan fydd awdurdod tarddiadol yn gwneud cais i gofrestru, rhaid iddo ddatgan o dan ba ddeddfwriaeth y mae'r pridiant yn cael ei greu. Newidiodd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i'r system hon ym mis Ebrill 2022.
56. Bydd y gost a ddaw i ran yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar ôl i'r system hon gael ei diweddarau yn dod o fewn y costau a nodwyd eisoes.

Crynodeb

57. Mae'r costau trosiannol a nodwyd uchod yn gyfanswm o ryw £50,000 a byddant yn cael eu hysgwyddo ar draws y cyfnod gweithredu (2023-26) ar ei hyd. Mae'r costau a nodwyd yn adlewyrchu'n bennaf y gost cyfle sy'n gysylltiedig ag amser staff ac nid ydynt yn wariant ariannol ychwanegol. Ni ddisgwylir i'r Bil arwain at unrhyw gostau ychwanegol ar ôl y cyfnod gweithredu.

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

Rhan 3 – Asesiad effaith integredig

58. Yn ogystal ag asesu costau, aed ati ar yr un pryd i gynnal asesiad effaith integredig, sy'n cael ei gynhoi isod. Gellir gwneud cais am gopi o'r asesiad drwy gysylltu â historicenvironmentleg@llyw.cymru ac fe'i cyhoeddwyd ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).
59. Mae'r Bil yn dwyn ynghyd y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth gyfredol ar yr amgylchedd hanesyddol, fel y bo modd dod o hyd iddi'n hawdd. Mae hynny, a'r broses o foderneiddio ffurf y gyfraith a sut yr eir ati i'w drafftio, yn golygu ei bod yn haws ei deall a'i chymhwysu. Nid asesu effaith y polisïau yn y ddeddfwriaeth oedd bwriad yr asesiad effaith, ond yn hytrach asesu'r gwaith a wnaed i gydgyrnhoi deddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol.
60. Gan nad oes unrhyw newidiadau polisi yn y Bil, daeth yr asesiad effaith integredig i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith a geir yn y rhan fwyaf o feysydd ond y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Ceir crynodeb isod o'r prif gasgliadau.

Yr effaith ar y Gymraeg

61. Bydd cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg oherwydd y bydd yr holl ddeddfwriaeth hon bellach ar gael yn ddwyieithog am y tro cyntaf. Bydd hynny'n sicrhau y bydd deddfwriaeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol ar gael mewn ffordd gwbl deg i siaradwyr Cymraeg ac i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.
62. Dylai'r ffaith bod y ddeddfwriaeth ar gael yn Gymraeg annog mwy o ddefnydd hefyd o derminoleg dechnegol ar y pwnc yn Gymraeg, nad yw'n cael ei ddefnyddio rhyw lawer ar hyn o bryd.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

63. Ystyriwyd effaith y Bil ar bobl sydd yn y grwpiau gwarchoddedig. Cyfyngedig fydd yr effeithiau arnyn nhw oherwydd na fydd effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth yn newid. Datblygwyd y rhaglen hygyrchedd ehangach gyda golwg ar hyrwyddo mynediad cyfartal i'r gyfraith i bawb, a bydd cydgrynhoi deddfwriaeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at y nod hwnnw. Bydd yr ymarfer yn gwella mynediad i ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol i bawb, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith, y farnwriaeth, academyddion a dinasyddion.

Hawliau'r plentyn

64. O ran erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), nid yw manteision ac effeithiau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn cefnogi nac yn hyrwyddo hawliau plant yn uniongyrchol. Ystyrir nad oes unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant.

Asesiad o'r effaith ar gyfiawnder

65. Aseswyd yr effeithiau y gallai'r cynigion eu cael ar y system gyfiawnder. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effaith sylweddol ar y system farnwrol oherwydd nad yw'r Bil cydgrynhoi yn newid effaith y gyfraith bresennol. Nid yw wedi creu unrhyw droseddau newydd; mae'r rhan fwyaf o'r troseddau wedi cael eu hailddatgan, mae tri wedi'u diddymu ac mae un drosedd wedi'i diwygio drwy ddileu dedfryd o garchar os dyfernir rhywun yn euog. Yr unig beth y mae'r cydgrynhoi'n ei olygu yw, ar yr adegau prin hynny pryd y gall fod angen i'r rheini sy'n rhan o'r system gyfiawnder droi at y ddeddfwriaeth, y bydd angen iddynt edrych ar ddeddfwriaeth wahanol, sy'n golygu y bydd angen iddynt ymgyswrtio â hi. Unwaith y bydd hynny wedi'i wneud, bydd yr effaith yn gadarnhaol oherwydd (o safbwynt Cymru) bydd un Ddeddf fodern, ddwyieithog yn gymwys yng Nghymru; ac oherwydd (o safbwynt Lloegr) y bydd y gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr yn llai cymhleth oherwydd y bydd darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gymwys i Gymru yn unig yn cael eu dileu.